# Cylchoedd Bywyd – Cynllun Gwers

**Oedran Arfaethedig:** Cyfnod Sylfaen

**Maes Dysgu:** Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd

NFU CYMRU
Fferm Wyddoniaeth

## Cysylltiadau Cwricwlwm

**Ystod** – Fi fy hun a phethau byw eraill

**Sgiliau** - meddwl am gwestiynau, gofyn y cwestiynau hynny a gwrando ar yr atebion, llunio cymariaethau ac adnabod tebygrwydd a gwahaniaethau, didoli a grwpio gwybodaeth gan ddefnyddio TGCh ar brydiau, disgrifio'r hyn y maent wedi'i ddarganfod a chynnig esboniadau syml, defnyddio geiriau ac ymadroddion syml ar gyfer eu byd ac ymgyfarwyddo â'r geiriau hynny.

## Amcanion Dysgu:

**Medru esbonio a threfnu cylch bywyd syml. Cydnabod bod enwau gwahanol yn medru perthyn i'r un anifail o ganlyniad i'w oedran a'i ryw.**

**Geirfa Allweddol:**
Cylch Bywyd, Oen, Dafad, Mamog, Hwrdd, Buwch, Llo, Tarw, Hether, Oedolyn, Glaslanc/es, Plentyn, Plentyn bach, Babi, Iâr, Cyw, Ceiliog, Tyfu, Tyfiant, Hŷn, Iau, Talach.

## Cyflwyniad:

Chwaraewch gwis Babi? Babi? Babi? gyda'r dosbarth/grŵp. Gofynnwch i'r dosbarth feddwl am esiamplau eraill o anifeiliaid a'u hepil.

Gwyliwch fideo 'Science Farm – Life Cycles' yma www.nfu-cymru.org.uk

## Prif Sesiwn:

Rhannwch y plant yn 4 grŵp a rhowch set o gardiau 'cylch bywyd' i bob grŵp.

Bydd y plant yn dewis un anifail yr un ac yn trefnu'r cylch bywyd yn y drefn gywir. Gofynnwch iddynt esbonio eu cylch bywyd i'r plant eraill yn y grŵp.

Gall y plant lynu eu cylch bywyd yn eu gwerslyfrau neu gallent ddefnyddio platiau papur i greu arddangosfa cylch bywyd yn y dosbarth.

## Sesiwn Grynhoi:

**Trafodaeth ddosbarth –** Nawr ein bod ni'n gwybod ystyr cylch bywyd, gallwn ni feddwl am esiamplau eraill o gylchoedd bywyd? Os yw'r dysgwyr yn cael trafferth meddwl am syniadau, cyfeiriwch yn ôl i'r cwis yn y cyflwyniad.

## Gweithgareddau Ymestynnol a syniadau pellach:

- Mae cynnal y gweithgaredd hwn cyn ymweld â fferm yn annog plant i edrych am anifeiliaid sydd ar gyfnodau datblygiadol gwahanol.
- Gallai'r plant ddylunio a chreu cardiau eu hunain wedi iddynt wneud ychydig o waith ymchwil am anifail sydd o ddiddordeb iddynt.
- Gellid ddefnyddio'r gweithgaredd hwn yn weithgaredd gloywi gyda dysgwyr hŷn cyn trafod atgenhedliad planhigion, ynghyd â'i ddefnyddio yn sbardun i drafod y gwahaniaeth rhwng planhigion ac anifeiliaid.

NFU Cymru, Ty Amaeth,
Maes y Sioe Frenhinol, Llanelwedd, Powys, LD2 3TU
www.nfu-cymru.org.uk